DAL BREUDDWYDION A CHADW YSBRYDION DRWG DRAW

DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

TROSOLWG

Bydd dysgwyr yn edrych ar beth yw breuddwydion a pham rydyn ni'n cysgu. Yna, byddant yn meddwl am ffyrdd y gallant wella eu patrymau cysgu eu hunain. Byddant yn archwilio gwahanol ddelweddau a diwylliannau i roi ysbrydoliaeth iddynt ar gyfer dylunio swynogl i atal breuddwydion drwg ac ysbrydion drwg. Mae'r archwiliadau hyn yn cynnwys dalwyr breuddwydion, marciau gwrach, symbolau Celtaidd, gargoeliau, llygad drwg, llygad Horus, llaw Hamsa, gwydr lliw a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae dysgwyr yn gwneud bwrdd naws digidol er mwyn rhannu eu hoff ddelweddau cyn cynllunio ac yna wneud eu swynogl.

CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dan sylw:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o gymryd ffotograffau, e.e. ffonau clyfar, tabledi, camerâu digidol.
Dulliau o wneud swynogl: dalennau persbecs, rhai lliwiadau bwyd, cerdyn gwyn, glud PVA (clir a gwyn), beiro paent acrylig du, tâp gludiog.

GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

BETH YW BREUDDWYDION?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n edrych ar beth yw breuddwydion a pham rydyn ni'n cysgu. Yna, byddant yn meddwl am ffyrdd y gallant wella eu patrymau cysgu eu hunain.

Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i ateb y cwestiynau canlynol.

Cwestiynau ffocws

- Beth yw breuddwyd, yn eich barn chi?
- Pryd ydych chi'n breuddwydio?
- Pa mor hir yw breuddwyd? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ydych chi'n ei wneud pan fyddwch chi'n breuddwydio?
- Sut gall breuddwydion effeithio arnoch chi? Pam?

Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pob ateb i'r cwestiwn 'Beth yw breuddwyd?' a phenderfynu gyda phwy maen nhw'n cytuno fwyaf a pham. Yna, dylent ddweud gyda phwy maen nhw'n anghytuno a pham. Yn olaf, gofynnwch iddynt ailystyried eu syniadau cynharach ynghylch beth yw breuddwyd a llunio eu diffiniad terfynol.

Sgrîn 5

Dangoswch y fideo What happens when we sleep? (tua 3 munud o hyd) i'r dysgwyr. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

Cwestiynau ffocws

- Beth yw pedwar cam y cylch cwsg?
- Ym mha ran o'r cylch cwsg ydyn ni'n cael y mwyaf o freuddwydion?
- Pan fydd yr ymennydd yn cynhyrchu tonnau delta, beth sy'n digwydd yn y corff?
- Pam mae cwsg yn bwysig?
- Pam ei bod hi'n bwysig nad ydyn ni'n cael amser sgrîn yn union cyn mynd i gysgu?

Sgrîn 6

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth ynghylch pam rydyn ni'n meddwl ein bod ni'n cysgu, er bod gwyddonwyr yn parhau i geisio darganfod yn union pam rydyn ni'n cysgu.

Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr ychwanegu testun at y ddelwedd i ddangos pam rydyn ni'n cysgu – er mwyn helpu Sion i wneud ei daflen.

Sgrîn 8

Ar y sgrîn hon, rhoddir data am yr amser cwsg a argymhellir ar gyfer grwpiau oedran penodol. Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio Excel i ail-lunio'r data mewn siart neu graff, er mwyn ei ddangos yn gliriach.

- Mewnforiwch y data i daenlen Excel.
- Amlygwch y tabl a chliciwch ar 'Recommended charts'.
- Detholwch 'All charts'.
- Sgroliwch drwyddo i ddod o hyd i'r ffordd orau o arddangos y data.

Gwahoddwch y dysgwyr i ateb y cwestiynau canlynol.

Cwestiynau ffocws

- Pa siart sy'n dangos y data fwyaf clir? Pam?
- Faint o gwsg sydd ei angen ar oedolyn, yn eich barn chi? Pam?

Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i roi cyngor i Ffion, sydd wedi bod yn cael trafferth mynd i gysgu yn y nos. Mae hi hefyd yn aml yn deffro yng nghanol y nos ac ni all fynd yn ôl i gysgu. Yn yr ysgol, nid yw'n gallu canolbwyntio ac mae'n bigog gyda'i ffrindiau. Gofynnwch iddyn nhw ddarllen y dudalen we: Tips for 11-18 year olds on improving your sleep - Mind (Saesneg yn unig) cyn rhoi eu cyngor. Yna, gallant rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu patrymau cwsg eu hunain a chynnig tair ffordd y gallen nhw geisio sicrhau eu bod yn cysgu'n well.

Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr ein bod ni i gyd yn breuddwydio yn ystod y dydd neu'n gadael i'n meddyliau grwydro pan rydym ni i fod i gyflawni tasg. Mae llawer o ymchwil ar freuddwydio yn ystod y dydd wedi cael ei wneud. Mae bellach yn cael ei weld fel rhywbeth defnyddiol, sy'n galluogi'n ymennydd i ffurfio atebion, cofio neu drefnu syniadau. Fodd bynnag, nid yw'n ein galluogi ni i gyflawni'r dasg rydyn ni yn ei gwneud, yn gyflym! Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

Cwestiynau ffocws

- Pryd oedd y tro diwethaf i chi freuddwydio yn ystod y dydd?
- Am beth roedd y freuddwyd ddydd hon?
- Beth oedd y dasg roeddech chi i fod yn ei gwneud?
- Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi cael breuddwyd dydd?

TASG 2

SUT MAE BREUDDWYDION AC YSBRYDION DRWG YN CAEL EU CADW DRAW?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn rhoi llawer o syniadau ac ysbrydoliaeth iddyn nhw ar gyfer dylunio'r swynogl maen nhw'n mynd i'w gwneud yn y dasg nesaf. Y nod yw defnyddio eu holl syniadau a'r delweddau ar gyfer gwneud bwrdd naws digidol.

Sgrîn 3

Pwrpas y sgrîn hon yw ceisio darparu ysbrydoliaeth i'r dysgwyr ar gyfer dylunio eu swynogl i ddal breuddwydion neu gadw ysbrydion drwg i ffwrdd, y byddant yn ei wneud yn y dasg nesaf.

Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod gan lawer o ddiwylliannau ffyrdd o 'ddal breuddwydion' drwy weithredu fel hidl. Maen nhw'n anfon breuddwydion da at y cysgwr ac yn anfon y breuddwydion drwg i ffwrdd. Daw'r enghraifft a roddir yma gan lwyth yr Ojibwe yn America Frodorol.

Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr fod gan ddiwylliannau a gwledydd eraill eu ffyrdd traddodiadol eu hunain o 'ddal breuddwydion'. Gofynnwch iddyn nhw ymchwilio ar-lein i ddod o hyd i ddyluniadau o 'ddalwyr breuddwydion' o America Frodorol ac i ganfod sut mae diwylliannau a gwledydd eraill yn 'dal breuddwydion'. Efallai yr hoffent edrych ar wledydd neu ddiwylliannau Celtaidd, Mecsicanaidd, Indiaidd, rhai sy'n gysylltiedig â siamaniaeth yn Siberia neu efallai chwilio am ddelweddau o 'ddalwyr breuddwydion' yn unig.

Gofynnwch i'r dysgwyr storio eu hoff ddyluniadau yn ddigidol.

Sgrîn 6

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ddefnyddio'r geiriau a restrir, ar gychwyn cwestiynau y gellir eu gofyn er mwyn helpu'r dysgwyr i ddarganfod mwy am y ddelwedd.

Sgrîn 7

Gwahoddwch barau o ddysgwyr i ddod at ei gilydd mewn grwpiau bach i rannu eu cwestiynau ac i drafod atebion posibl i'r cwestiynau.

Sgrîn 8

Ar y sgrîn hon, darperir gwybodaeth am wrachyddiaeth yng Nghymru a Lloegr. Rhoddir disgrifiad o achos ym 1607, pan amheuwyd Katherine Lewis, gwraig llafurwr o'r enw Thomas Bowen o Ddinbych-y-Pysgod, o swyno rhai moch yn Gumfreston. Rhedodd dwy hwch o gwmpas 'mewn modd rhyfedd iawn' a cholli eu torllwythi. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

Cwestiynau ffocws

- Beth ydych chi'n ei wybod am wrachyddiaeth yn y gorffennol yng Nghymru?
- Pam ydych chi'n meddwl bod cyn lleied o 'farciau gwrach' yn Sir Benfro?
- Pam ydych chi'n meddwl mai merched oedd y mwyafrif helaeth o wrachod?
- Sut y gallai'r iaith a siaredir fod wedi cael effaith ar bwy gafodd ei henwi fel gwrach, yn eich barn chi?

Eglurwch wrth y dysgwyr fod 'marciau gwrach' ar lawer o hen adeiladau. Bwriad y rhain oedd cadw gwrachod ac ysbrydion drwg eraill draw, fel y dangosir gan y ddelwedd yr edrychodd y dysgwyr arni ar sgriniau 6 a 7.

Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, dangosir y Cwlwm Celtaidd a rhoddir gwybodaeth amdano. Roedd hwn bob amser yn cael ei osod ger unrhyw un oedd yn sâl, ar dariannau rhyfelwyr ac ar dai i gadw ysbrydion drwg i ffwrdd.

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio ar-lein i ddod o hyd i ddelweddau o symbolau eraill a ddefnyddir i gadw ysbrydion drwg i ffwrdd. Efallai yr hoffent edrych ar symbolau Celtaidd eraill, gargoeliau, llygad drwg, llygad Horus, llaw Hamsa neu chwilio am ddelweddau o symbolau eraill.

Gofynnwch i'r dysgwyr storio eu hoff ddelweddau yn ddigidol.

Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r cwestiynau ar y sgrîn i ystyried y ddelwedd.

Sgrîn 11

Ar y sgrîn hon, darperir gwybodaeth ynghylch sut mae gwydr lliw yn cael ei ddefnyddio mewn adeiladau crefyddol i adrodd straeon crefyddol ac i wneud yr adeilad yn fwy prydferth. Hefyd, gellir cymharu'r golau a ddaw trwy wydr lliw â chael profiad crefyddol.

Sgrîn 12

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd dyluniad eu swynogl yn edrych fel gwydr lliw. Dywedwch wrthyn nhw y byddwch chi'n mynd â nhw allan i'r ardal leol er mwyn iddyn nhw allu cymryd ffotograffau o wydr lliw. Gofynnwch iddyn nhw ystyried y cwestiynau canlynol.

Cwestiynau ffocws

- Ym mhle yn yr ardal leol y gwyddoch chi fod gwydr lliw? Sut olwg sydd arno? Ym mha adeilad y mae ynddo/arno?
- Ble ydych chi'n meddwl y gallai fod gwydr lliw arall? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Sgrîn 13

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored fel y gallant gymryd ffotograffau o wydr lliw yn yr ardal leol.

Sgrîn 14

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar ddyluniadau'r gwydr lliw sydd yn ei ffotograffau ac yna i drafod y cwestiynau canlynol.

Cwestiynau ffocws

- Pa ddelweddau allwch chi eu gweld yn y gwydr lliw? Pam ydych chi'n meddwl bod y delweddau hyn yn cael eu defnyddio?
- Pa liwiau a ddefnyddir yn y gwydr lliw? Pam ydych chi'n meddwl bod y lliwiau hyn wedi'u dewis?
- Sut y gosodir terfyn rhwng un lliw a'r lliw nesaf ato? Pam ydych chi'n meddwl y gosodir y terfynau hyn?

Gofynnwch i'r dysgwyr storio eu hoff ddelweddau yn ddigidol.

Sgrîn 15

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai dyluniad eu swynogl gael ei ysbrydoli gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

Cwestiynau ffocws

- Beth ydym ni'n ei wybod am Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro?
- Beth yw rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro? Sut allwn ni ddarganfod beth ydyn nhw?
- Sut gallwn ni ddod o hyd i ddelweddau o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro?
- Pa fath o ddelweddau ddylem ni edrych amdanynt? Pam?

Sgrîn 16

Gofynnwch i'r dysgwyr chwilio ar y rhyngrwyd am ddelweddau o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro neu gallech chi fynd â nhw allan i'r awyr agored i gymryd eu ffotograffau eu hunain. Gwahoddwch y dysgwyr i storio eu hoff ddelweddau yn ddigidol.

Sgrîn 17

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw nawr yn mynd i wneud bwrdd naws digidol i'w helpu i ddylunio eu swynogl. Gofynnwch iddynt fyfyrio ar eu delweddau sydd wedi'u storio o ddalwyr breuddwydion, ffyrdd a ddefnyddir i gadw ysbrydion drwg i ffwrdd, gwydr lliw a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Yna, gall y dysgwyr drafod y cwestiynau cannlynol.

Cwestiynau ffocws

- Pa ddelweddau sydd orau gennym ni? Pam?
- Pa ddelweddau o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro allwn ni eu defnyddio yn ein dyluniad? A ddylem ni ddefnyddio'r ddelwedd gyfan neu ran ohoni'n unig?
- Sut gallwn ni ddylunio ein swynogl i gyfleu ymdeimlad o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, heb fod yn rhy llythrennol?
- Pa liwiau ddylem ni eu defnyddio? Pam?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr wneud eu bwrdd naws digidol.

Dyma dempledi digidol am ddim ar gyfer gwneud bwrdd naws (Saesneg yn unig):

1. Pinterest
2. Canva
3. Evernote

TASG 3

SUT GALLWN NI WNEUD EIN SWYNOGL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw nawr yn cynllunio eu swynogl ac yna'n ei wneud.

Sgrîn 3

Atgoffwch y dysgwyr y bydd eu swynogl yn edrych fel pe bai wedi'i wneud o wydr lliw. Er mwyn ei wneud i edrych fel hyn, byddant yn defnyddio glud a lliwiad bwyd.

Dangoswch y ddau fideo sy'n rhoi syniadau ar sut y gellir gwneud hyn.

Make Magical Stained Glass Art With Glue (Yes, Glue!) (tua 1 funud o hyd)

DIY Faux Stained Glass (ychydig dros 3 munud o hyd).

Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i feddwl yn ôl at y ddau fideo, pan yn gwneud cynllun ar gyfer yr hyn maen nhw'n mynd i'w wneud. Rhowch wybod iddynt y bydd ganddynt:

- ddalen o bersbecs
- rhai lliwiadau bwyd
- cerdyn gwyn
- glud PVA (clir a gwyn)
- pen paent acrylig du
- tâp gludiog.

Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu neu dynnu llun y cynllun y maen nhw am ei ddilyn.

Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud eu swynogl gwydr lliw sy'n darlunio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'i arddangos yn y ffenestr.

Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am y ffyrdd y gwnaethon nhw weithio wrth wneud eu swynogl: yn unigol, mewn grwpiau, ar-lein, gwaith pâr. Yna, gwahoddwch nhw i ystyried pa strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt o'r restr ganlynol: darllen, ymchwilio, tynnu llun, myfyrio, dosbarthu, trafod, gwneud prototeipiau, defnyddio modelau, defnyddio enghreifftiau, gwneud rhestrau. Gallant hefyd awgrymu strategaethau eraill a ddefnyddiwyd. Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa strategaethau a weithiodd orau. Bydd y wybodaeth olaf hon yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.